OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 2915 (Cy.255)

TRAFNIDIAETH, CYMRU

Gorchymyn Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus Cymru (Sefydlu) (Diwygio) 2009

Gwnaed - - - - 2 Tachwedd 2009
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - 3 Tachwedd 2009
Yn dod i rym - - 25 Tachwedd 2009

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 8, 9 a 10 o Ddeddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt(**2**), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus Cymru (Sefydlu) (Diwygio) 2009. Daw i rym ar 25 Tachwedd 2009 ac mae'n gymwys o ran Cymru.

Diwygio Gorchymyn Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus Cymru (Sefydlu) 2009

2.—(1) Diwygir Gorchymyn Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus Cymru (Sefydlu) 2009(**3**) yn unol â pharagraffau (2) a (3).

(2) Yn y testun Cymraeg, yn erthygl 7(1)(ch), rhodder y gair "gweithdrefn" yn lle'r gair "gweithdrefnau."

(3) Yn y testun Cymraeg, yn erthygl 8(1) rhodder y gair "weithdrefn" yn lle'r gair "weithdrefnau."

Ieuan Wyn Jones
Y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth,
un o Weinidogion Cymru.

2 Tachwedd 2009

(**1**) 2006 p.5.
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).
(**3**) O.S. 2009/2816 (Cy.243)